**Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad Medr:**
**System reoleiddio newydd gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid**

Rhagfyr 2025

Ceir isod ymateb y Comisiynydd i ymgynghoriad Medr ar system reoleiddio newydd gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid. Cyflwynwyd yr ymateb yn wreiddiol ar ffurf atebion i nifer o gwestiynau penodol ar ffurflen ar-lein.

**Trosolwg**

Croesawn a chefnogwn nifer o agweddau'r system reoleiddio newydd. Rydym hefyd o'r farn y gellid cryfhau gofynion ac argymhellion y system er mwyn cael effaith mwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Trafodir y materion hyn yn fanylach isod. Cyflwynwn yn gyntaf grynodeb o'n hargymhellion, gan dderbyn bod rhai materion yn ehangach na chwmpas yr ymgynghoriad ac yn addas i'w hystyried gan Medr yng nghyd-destun datblygu ei Gynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol.

- Dylai'r Fframwaith Rheoleiddio ddisgrifio'r broses gwyno a gorfodi yng nghyd-destun materion sy'n berthnasol i'r Gymraeg, gan egluro cyfrifoldebau'r Comisiynydd a Medr.
- Dylid sefydlu trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth a thystiolaeth rhwng swyddfa'r Comisiynydd a Medr.
- Dylai'r Fframwaith Rheoleiddio nodi bod disgwyl i ddarparwyr perthnasol adrodd ar eu cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg mewn adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Dylid egluro'r amserlen arfaethedig ar gyfer Strategaeth y Gymraeg y darparwyr, gan gynnwys trefniadau adrodd ar gyflawniad a'r broses o adolygu a diweddaru'r strategaethau. Mae'n hanfodol bod y strategaethau hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Cenedlaethol a'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, a baratoir gan Weinidogion Cymru, ac yn fwy cyffredinol yn ymateb i flaenoriaethau'r sector sydd yn debygol o newid dros amser.
- Dylid annog darparwyr perthnasol i adrodd yn eu Strategaeth y Gymraeg ar sut y maent yn mynd y tu hwnt i ofynion y safonau a'r Cynnig Cymraeg ac yn arloesi o ran eu defnydd o'r Gymraeg a'u dulliau o hybu'r iaith ar draws y sefydliad.
- Dylid argymell bod darparwyr yn cynllunio'n rhagweithiol i gynyddu nifer y staff sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn eu Strategaeth y Gymraeg, dylai darparwyr egluro sut y byddant yn cynnal ac yn cynyddu sgiliau Cymraeg dysgwyr ac yn osgoi dirywiad yn y sgiliau hynny, gan gynnwys datblygu strategaeth aml-haenog sy'n cynnig darpariaeth ieithyddol addas i ddysgwyr ar bob lefel o allu yn y Gymraeg.
- Dylai'r Fframwaith Rheoleiddio ofyn i ddarparwyr gofnodi sgiliau iaith dysgwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hastudiaethau, er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi cynnal neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn dilyn darpariaeth addas cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynlluniwyd yn ofalus i wella'r sgiliau hynny yn ystod cyfnod astudio'r dysgwyr.

- Yn eu Strategaeth y Gymraeg, dylai darparwyr egluro sut y byddant yn cynyddu cyfranogiad gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Dylid gofyn i ddarparwyr rannu gwybodaeth â darpar fyfyrwyr am gyfrwng iaith cyrsiau a'r manteision a ddaw yn sgil astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd gyrfaol ychwanegol.

**Dull rheoleiddio**

Croesawn ddatganiad Medr y bydd ei ddull rheoleiddio yn ymwneud nid dim ond â gorfodi safonau, ond hefyd â chydweithio gyda darparwyr addysg a rhanddeiliaid i gyflawni deilliannau a rennir. Mae'r dull cymesur a seiliedig ar risg yn adlewyrchu ymagwedd y Comisiynydd at reoleiddio safonau'r Gymraeg. Rydym yn blaenoriaethu meysydd sydd â'r effaith fwyaf ar ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda sefydliadau i fynd i'r afael â risgiau cyn iddynt arwain at dorri safonau.

**Trefniadau monitro**

Nodir yn y Fframwaith Rheoleiddio y bydd gweithgarwch monitro Medr yn defnyddio ystod eang o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth. Dywed y gallai Medr ystyried sicrwydd trydydd parti a gafwyd gan ddarparwyr, megis cyrff rheoleiddio eraill. Croesawn fwriad Medr i fonitro ac asesu cydymffurfedd ag amod y Gymraeg, yn benodol, trwy ddulliau sy'n cynnwys ymgysylltu â swyddfa'r Comisiynydd. Hoffem fwy o eglurder am rôl y Comisiynydd, sy'n gyfrifol am asesu cydymffurfiaeth darparwyr â safonau'r Gymraeg, yng nghyd-destun gwaith monitro Medr. Gan dderbyn bod y Fframwaith Rheoleiddio yn mynd y tu hwnt i ofynion safonau'r Gymraeg, bydd rhaid sicrhau ei fod yn glir i'r rhai sy'n ymwneud ag addysg drydyddol beth yw'r broses gwyno a gorfodi yng nghyd-destun materion sy'n berthnasol i'r Gymraeg. Bydd angen sefydlu trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth a thystiolaeth rhwng swyddfa'r Comisiynydd a Medr.

**Cynlluniau diogelu dysgwyr**

Yn y Fframwaith Rheoleiddio, croesawn y ffaith bod yr enghreifftiau yn Atodiad C o amgylchiadau sy'n berthnasol i Gynlluniau Diogelu Dysgwyr yn cynnwys newid cyfrwng astudio o'r Gymraeg i'r Saesneg. Rydym yn argymell bod newid o'r math yn cael ei amlygu yn y rhestr Sbardunau hefyd.

**Cyfle cyfartal**

Cefnogwn yr amod Cyfle Cyfartal a'r egwyddor o gynyddu cyfranogiad gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi. Yn rhan o hyn, dylid sicrhau cyfle cyfartal i bobl o bob cefndir ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Yn eu Strategaeth y Gymraeg, dylai darparwyr egluro sut y byddant yn cynyddu cyfranogiad gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

**Gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr**

Croesawn y bwriad i atgoffa darparwyr o'u dyletswydd i ymlynu wrth safonau'r Gymraeg yng nghyd-destun rhannu gwybodaeth â darpar fyfyrwyr. Mae darparu gwybodaeth yn y Gymraeg ymlaen llaw i ddarpar fyfyrwyr yn gam cychwynnol hanfodol tuag at normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg gan fyfyrwyr mewn addysg drydyddol. I adeiladu ar hyn, credwn y dylid hefyd rannu gwybodaeth â darpar fyfyrwyr am gyfrwng iaith cyrsiau'r darparwyr a'r manteision a ddaw yn sgil astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd gyrfaol ychwanegol. Gallai Medr ystyried hyn wrth ddatblygu ei Gynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol.

**Fframwaith Ansawdd**

Cefnogwn y bwriad i wneud y gofynion ansawdd yr un mor gymwys i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg. Nodwn fod y Fframwaith Ansawdd yn cydnabod dyletswydd darparwyr i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Nodwn hefyd y datganiad fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi'u gwreiddio yn y dulliau sy'n nodweddu addysg o ansawdd da. Dylid gwneud cyfeiriad penodol at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym mrawddeg gychwynnol paragraffau 16, 18 ac 19 er mwyn pwysleisio pwysigrwydd prif ffrydio'r Gymraeg. Rydym hefyd yn argymell bod Medr yn cynnwys dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg ymhlith y dangosyddion y mae'n bwriadu ymgynghori arnynt erbyn 2027.

Cefnogwn egwyddor cysondeb deilliannau ar gyfer dysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Fframwaith Ansawdd yn cydnabod y bydd prosesau ansawdd a chymorth i ddysgwyr yn amrywio oherwydd amrywiaeth y sector, demograffeg dysgwyr ac anghenion grwpiau o ddysgwyr. Dylid sicrhau bod addysg o ansawdd da a chymorth i ddysgwyr sy'n dymuno defnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg yn nodwedd o'r sector addysg drydyddol yn ei gyfanrwydd, p'un ai mae niferoedd y dysgwyr hynny yn is neu yn uwch dan unrhyw ddarparwr. Rydym yn cydnabod disgwyliad Medr y bydd pob darparwr, dros amser, yn datblygu eu gallu i ddefnyddio, hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws eu gwasanaethau fel darparwr, trwy eu darpariaeth addysg a thrwy eu gweithgareddau ymchwil ac arloesi.

Croesawn y datganiad fod ystyriaethau i'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi'u gwreiddio ym mhob un o gonglfeini'r Fframwaith Ansawdd. Cefnogwn y gofyniad i ddarparwyr ystyried eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wrth hunanwerthuso a chefnogi eu staff i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn rhan o ddysgu a datblygiad proffesiynol. Rydym yn argymell cyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun ymgysylltu â dysgwyr a llais y dysgwr.

Croesawn fwriad Medr, wrth fonitro ac asesu risg darparwyr, i asesu deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'n rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn adroddiad y Comisiynydd, *Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr*, tynnir sylw at y ffaith y gall deilliannau addysg ddwyieithog amrywio'n fawr yng nghyd-destun cyrhaeddiad dysgwyr yn y ddwy iaith. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r angen i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16 er mwyn sicrhau bod cyrhaeddiad ieithyddol pob dysgwr yn cael cefnogaeth gref ac ymarferol. Mae'n hollbwysig ystyried y math o fewnbwn a fydd yn arwain at ddeilliannau ieithyddol gwahanol. Gellid gwneud hyn trwy fapio taith dysgwyr trwy'r sector addysg drydyddol ac asesu sut y dylid cynllunio'r ddarpariaeth er mwyn cynnal

a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Byddai angen gwneud hyn gan ystyried dysgwyr rhugl yn y Gymraeg, dysgwyr â rhywfaint o sgiliau Cymraeg ond â diffyg hyder, a dysgwyr ag ychydig iawn o sgiliau Cymraeg. Mae angen cynllunio'r ddarpariaeth mewn ffordd strategol a strwythuredig, ar sail modelau addysg ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg sydd wedi eu diffinio a'u cynllunio yn ofalus.

**Cod Ymgysylltu â Dysgwyr**

Cefnogwn Egwyddor 5 sy'n ei gwneud yn orfodol i ddarparwyr ymgysylltu â dysgwyr yn ddwyieithog, gan roi cyfleoedd iddynt gael eu cynnwys yn null y darparwr o ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Croesawn y gofyniad i ddarparwyr gynnwys dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu, monitro a gwerthuso strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu'r galw am addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu cyfranogiad yn yr addysg honno. Dylai'r Cod gyfeirio at safonau'r Gymraeg, gan bod rhai sefydliadau dan ddyletswydd i gydymffurfio â safonau perthnasol, er enghraifft yng nghyd-destun gohebu yn y Gymraeg a cheisio barn ar effaith polisïau ar y Gymraeg.

**Y Gymraeg**

Croesawn y ffaith bod y Gymraeg yn amod cofrestru parhaus ac yn amod cyllid. Dywed Medr y bydd yr amod yn cael ei adolygu'n barhaus i ystyried datblygiad y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol. Mae'r Fframwaith Rheoleiddio yn gosod gofyniad ar ddarparwyr i gyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ac yn argymell y dylai'r strategaeth adlewyrchu cyfraniadau'r darparwyr i'r Cynllun Cenedlaethol arfaethedig. Cefnogwn yr egwyddor hon.

*Canllawiau atodol*

Gwyddom bod bwriad cyhoeddi'r Cynllun Cenedlaethol ym mis Ebrill 2027 a'i roi ar waith ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Medi 2027. Rydym eisoes wedi argymell wrth Medr y dylid cyflwyno canllawiau atodol ynglŷn â'r amod yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Cenedlaethol. Dylai'r canllawiau amlinellu gweledigaeth ac uchelgais Medr a rhoi cyngor ac arweiniad i sefydliadau ar gynnwys y strategaethau a dull o fesur cynnydd sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol. Heb hynny, mae risg mai cyflawni amod fydd unig bwrpas y strategaethau. Rhaid iddynt fod yn strategaethau grymus a fydd yn creu newid. Dylent blethu â gofynion safonau'r Gymraeg ar y darparwyr, gan fynd ymhellach na hynny a thrafod ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, annog cyfranogiad a datblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn ogystal.

Un mater sydd angen ei ystyried ymhellach yw pa mor hir y disgwylir i'r strategaethau barhau a pha mor aml y disgwylir i ddarparwyr adrodd ar eu cyflawniad. Byddai'n fuddiol hefyd egluro pryd y bydd angen diweddaru'r strategaethau er mwyn sicrhau eu bod yn alinio â'r Cynllun Cenedlaethol ac yn ymateb i flaenoriaethau'r sector. Enghraifft ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn yw Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 lle mae gofyn i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bob pum mlynedd. Credwn bod cyflwyno amserlen strwythuredig o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod strategaethau'r darparwyr yn gyfoes ac yn adlewyrchu uchelgais a blaenoriaethau Medr yn ogystal â pholisi cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried ei bod yn gyfnod o ddiwygio mawr i'r sector addysg a bod nifer o ddatblygiadau arwyddocaol ar y

gweill o safbwynt Deddf y Gymraeg ac Addysg. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, ac i gyflwyno Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae'n debygol y bydd strategaethau cyntaf y darparwyr yn cael eu llunio cyn i'r datblygiadau hyn wreiddio'n llwyr.

*Safonau'r Gymraeg a'r Cynnig Cymraeg*

Mae'r Fframwaith Rheoleiddio yn gosod gofyniad ar ddarparwyr i nodi yn eu Strategaeth y Gymraeg sut y byddant yn hybu ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr, gan gynnwys ymhlith staff a dysgwyr. Dywed y dylai'r strategaeth ystyried unrhyw amodau rheoleiddiol sy'n berthnasol i gynnig gwasanaethau Cymraeg, megis safonau'r Gymraeg. Mae safonau'r Gymraeg, yng nghyd-destun sefydliadau addysg ôl-16, yn gosod gofynion sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth addysgol yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg yn fewnol gan y gweithlu. Dylid nodi yn y Fframwaith Rheoleiddio bod disgwyl i ddarparwyr adrodd ar eu cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg mewn adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg. Rydym yn ystyried bod y ddyletswydd i lunio Strategaeth y Gymraeg yn rhoi cyfle i ddarparwyr adrodd ar sut y maent yn mynd y tu hwnt i ofynion y safonau ac, yn wir, yn arloesi o ran eu defnydd o'r Gymraeg a'u dulliau o hybu'r iaith ar draws y sefydliad. Cefnogwn y gofyniad i ddarparwyr nad ydynt yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg weithio gyda'r Comisiynydd i dderbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg. Dylent hwythau hefyd egluro yn eu Strategaeth y Gymraeg sut y byddant yn mynd ymhellach na'u hymrwymiadau ar gyfer y Cynnig Cymraeg, er mwyn cwrdd ag amcanion amod y Gymraeg. Bydd angen egluro'r berthynas rhwng y ddwy gyfundrefn reoleiddio wahanol, gan gadw mewn cof bod modd cydweithio er mwyn cyflawni amcanion cyffredin.

*Cydweithio*

Cefnogwn argymhellion y Fframwaith Rheoleiddio y dylai Strategaeth y Gymraeg pob darparwr gynnwys deilliannau mesuradwy ar gyfer cynyddu'r galw a chyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc. Bydd hyn yn cynorthwyo i roi ffocws i'r ymdrechion hynny ac asesu i ba raddau y maent yn llwyddo. Cytunwn hefyd y dylai darparwyr gydweithio i gynyddu'r galw a chyfranogiad ac ystyried strategaethau ei gilydd i ategu dull cydgysylltiedig yng nghyd-destun darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi galw am gynllunio a chydweithio rhwng darparwyr yn yr adroddiad, *Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr*, yn enwedig yng nghyd-destun y chweched dosbarth mewn ysgolion. Cefnogwn hefyd argymhelliad Medr ynghylch cydweithio rhwng darparwyr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. O ran y chweched dosbarth mewn ysgolion, gan nad ydynt yn dod o fewn cwmpas amod y Gymraeg ond bod gofynion eraill arnynt o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg, hoffem bwysleisio bod angen ystyried y gofynion hynny a bod yn glir am y cyfrifoldebau dan sylw.

*Gweithlu cyfrwng Cymraeg*

Cytunwn y dylai darparwyr ystyried capasiti'r gweithlu addysgu yng nghyd-destun cynorthwyo mwy o ddysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel pwnc. Fodd bynnag, credwn y dylai'r argymhelliad hwn fod yn gryfach. Dylai Medr argymell bod darparwyr yn cynllunio'n rhagweithiol ac yn strategol i gynyddu nifer y staff sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynnal a datblygu gweithlu â'r gallu i addysgu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg drydyddol. Mae gan y Comisiynydd rôl yn y cyd-destun hwn, gan

gynghori sefydliadau yn ogystal â rheoleiddio cydymffurfiaeth â'r safonau. Cefnogwn argymhelliad y Fframwaith Rheoleiddio y dylai cynlluniau strategol ehangach pob darparwr ymgorffori'r egwyddor o gynyddu'r galw a chyfranogiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc. Dylent gynnwys amcanion pendant i'r perwyl hwnnw. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn prif ffrydio'r egwyddor hon yn y sector addysg drydyddol.

*Sgiliau Cymraeg dysgwyr*

Cytunwn ag argymhelliad y Fframwaith Rheoleiddio y dylai prosesau derbyn a chofrestru darparwyr ystyried sgiliau iaith dysgwyr at ddibenion datblygiad parhaus eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys trwy astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn eu Strategaeth y Gymraeg, dylai darparwyr egluro sut y byddant yn cynnal ac yn cynyddu sgiliau Cymraeg dysgwyr ac yn osgoi dirywiad yn y sgiliau hynny. Gallai hynny gynnwys sicrhau bod dysgwyr a astudiodd TGAU ac/neu Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Rydym yn argymell y dylai darparwyr gofnodi sgiliau iaith y dysgwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hastudiaethau, er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi cynnal neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a gwirio bod y camau y mae'r darparwyr yn eu cymryd i gynnal a gwella sgiliau yn briodol.

Cefnogwn argymhelliad y Fframwaith Rheoleiddio y dylai datblygiad rhaglenni dysgu perthnasol gyd-fynd â'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, a baratoir gan Weinidogion Cymru. Er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwr, bydd angen strategaeth aml-haenog sy'n targedu dysgwyr sy'n cychwyn o lefelau gwahanol iawn, gan dderbyn y bydd y deilliannau disgwyliedig yn wahanol hefyd. Dylai'r strategaethau fod yn glir ynghylch y deilliannau a ddisgwylir i wahanol fathau o ddysgwyr ar ddiwedd eu cyfnod addysg. Ychydig iawn o gynnydd sydd wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n astudio cyfran sylweddol o'u cyrsiau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Mae datrys hyn yn flaenoriaeth i'r sector.

Fel y nodwyd uchod, croesawn fwriad Medr i fonitro ac asesu cydymffurfedd ag amod y Gymraeg trwy ddulliau sy'n cynnwys ymgysylltu â swyddfa'r Comisiynydd. Byddem yn falch o drafod hyn ymhellach a sut y gallwn rannu gwybodaeth rhwng swyddfa'r Comisiynydd a Medr. Cefnogwn hefyd y bwriad i adolygu'r amod yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi ac adborth gan randdeiliaid. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y newidiadau a ddaw i'r sector addysg yng nghyd-destun y Gymraeg, yn sgil gofynion newydd Deddf y Gymraeg ac Addysg. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr yng Nghymru, erbyn diwedd eu cyfnod o addysg orfodol, yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol. Dylai'r sector addysg drydyddol gynllunio ar gyfer y cynnydd yn sgiliau Cymraeg pobl ifanc ledled Cymru a ddaw yn sgil hyn a'i rôl yn paratoi dysgwyr ar gyfer gweithlu dwyieithog y dyfodol. Fel y nodir yn *Cymraeg 2050*, "mae gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ran allweddol i'w chwarae o ran cynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr er mwyn ateb y galw cynyddol am weithlu dwyieithog".